## ADRAN 19

## 19. CÔD YMARFER CYNLLUNIO

### 19.1 CYFLWYNIAD

19.1.1 Bwriad y Côd Ymarfer hwn yw arwain y gweithdrefnau a ddefnyddir gan Gynghorwyr (Aelodau) a Swyddogion y Cyngor i ymdrin â materion cynllunio ac i osod safonau o ran y priodoldeb a'r ymddygiad y gall pobl Gwynedd eu disgwyl ganddynt.

19.1.2 Mae'r system cynllunio gwlad a thref yn golygu bod rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniadau am gynigion preifat ar gyfer datblygu a defnyddio tir, ond er budd y cyhoedd. Mae cyfraith cynllunio yn ei gwneud yn ofynnol i bob cais cynllunio gael ei bennu yn unol â chynllun datblygu mabwysiedig Gwynedd oni bai fod ystyriaethau cynllunio perthnasol yn dynodi fel arall. Rhaid i'r Cyngor hefyd ystyried sylwadau a wneir gan y cyhoedd cyn belled ag y maent yn ymwneud ag ystyriaethau cynllunio perthnasol.

19.1.3 Gan fod Cynllunio yn effeithio ar fywydau pobl a'u buddiannau preifat gall fod yn ddadleuol iawn. Mae'n bwysig felly i bobl Gwynedd ddeall y system a bod â hyder yn ei gonestrwydd a'i thryloywder, a bod Aelodau a Swyddogion yn osgoi amhriodoldeb na hyd yn oed amheuaeth o amhriodoldeb. Cadarnheir yr ymagwedd hon gan y Pwyllgor ar Safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (Pwyllgor Nolan), yr Archwilwyr Dosbarth a'r Gymdeithas Llywodraeth Leol.

19.1.4 Rhaid i Aelodau sicrhau bod eu hymddygiad yn unol â Chôd Ymddygiad Aelodau'r Cyngor (sy'n ymdrin â materion fel datgan buddiant, rhoddion a lletygarwch), ond hefyd, wrth ymdrin â materion cynllunio, yn unol â'r Côd Ymarfer Cynllunio hwn.

19.1.5 Gall torri'r côd hwn, er na fydd fel arfer yn torri'r gyfraith droseddol, gael effaith niweidiol ar y parch sy'n bodoli tuag at y Cyngor. Gall arwain at adolygiad barnwrol ar y penderfyniad neu at gyflwyno cwyn o gamweinyddu neu honiad bod y Côd Ymarfer wedi ei dorri i'r Ombwdsman Llywodraeth Leol.

19.1.6 Os bydd gan yr Aelodau neu'r Swyddogion amheuaeth ynglŷn â gweithredu'r Côd hwn, dylent geisio cyngor gan Swyddog Monitro'r Cyngor.

### 19.2 ROLAU CYFRIFOLDEBAU AC YMDDYGIAD CYFFREDINOL

19.2.1 Mae gan y Cynghorwyr etholedig ('aelodau') a'r Swyddogion rolau gwahanol ond sy'n cyd-fynd â'i gilydd yn y broses gynllunio. Mae gan Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio rolau gwahanol i Gynghorwyr eraill.

**Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio**

19.2.2 Y Cynghorwyr sy'n Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio sy'n penderfynu ar y ceisiadau cynllunio mwyaf arwyddocaol a dadleuol a dderbynnir gan y Cyngor a gwnânt sylwadau ar fabwysiadu polisi cynllunio, fel y Cynllun Datblygu. Wrth wneud hynny mae'r Aelodau hyn yn cyflawni rôl led-

farnwrol ac mae’n ofynnol iddynt ystyried yr holl gynigion cynllunio o’u cymharu â budd y cyhoedd yn gyffredinol.

Dirprwyir ceisiadau eraill i'r Pennaeth Rheoleiddio i benderfynu arnynt (gweler adran 13 o'r Cyfansoddiad).

19.2.3 Bydd aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn :

(i) gweithredu'n deg ac agored ac yn osgoi unrhyw weithred a fyddai'n rhoi'r argraff eu bod yn dangos tuedd;

(ii) osgoi cyswllt cymdeithasol amhriodol gydag ymgeiswyr a'u hasiantau, gwrthwynebwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb;

(iii) peidio trefnu cefnogaeth neu wrthwynebiad i gais cynllunio;

(iv) cydymffurfio a gofynion y Protocol Cynllunio yn yr Atodiad i'r Côd Ymarfer hwn;

(v) gwneud penderfyniad ar seiliau cynllunio yn unig er budd y cyhoedd a pheidio ffafrio, neu ymddangos fel pe bai'n ffafrio, unrhyw berson, cwmni, grŵp neu ardal;

(vi) peidio penderfynu sut i bleidleisio ar geisiadau ar sail 'chwip' wleidyddol, ond ar rinweddau cynllunio pob achos. (Mae'r Ombwdsmon wedi barnu y gellid cyfrif bod rhoi penderfyniad cynllunio dan ddisgyblaeth yn chwip wleidyddol yn gyfystyr â chamweinyddu;

(vii) sicrhau bod y rhesymau dros y penderfyniadau yn cael eu datgan yn glir.

**Holl Aelodau**

19.2.4 Ni fydd aelodau yn rhoi pwysau ar swyddogion i wneud argymhelliad penodol mewn adroddiadau, na phan yn penderfynu ar benderfyniadau a ddirprwyir.

**Swyddogion**

19.2.5 Swyddogaeth swyddogion yw cefnogi'r cynghorwyr a hwyluso pethau iddynt yn eu gwaith.

19.2.6 Mae’r Pennaeth Rheoleiddio yn gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio dan y pwerau dirprwyedig ac yn gwneud argymhellion ar geisiadau mwy arwyddocaol a dadleuol a materion cynllunio eraill i’w penderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio a’r Cyngor. Gall Aelod Lleol neu unrhyw ddau aelod arall ofyn i unrhyw Fater Cynllunio gael ei gyfeirio at y Pwyllgor Cynllunio i gael penderfyniad arno yn hytrach na gan y Pennaeth Rheoleiddio dan y pwerau dirprwyedig (gweler Adran 13). Wrth ystyried ceisiadau ac wrth gynghori Aelodau a’r cyhoedd ar bolisi cynllunio, pennu ceisiadau cynllunio, gorfodi a materion cynllunio eraill, bydd Swyddogion Cynllunio yn:

(i) gweithredu'n deg ac agored ac yn osgoi unrhyw weithredoedd a fyddai'n creu argraff o duedd;

(ii) osgoi cyswllt cymdeithasol amhriodol gyda cheiswyr a'u hasiantau, gwrthwynebwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb;

(iii) ymdrin â phob cais/mater cynllunio gyda meddwl agored, gan osgoi syniadau a ragdybiwyd;

(iv) pwyso a mesur yr holl faterion cynllunio perthnasol yn ofalus;

(v) gwneud penderfyniadau ar seiliau cynllunio yn unig gan roi ystyriaeth i'r cynllun datblygu ac ystyriaethau perthnasol eraill;

(vi) rhoi cyngor cynllunio proffesiynol, gwrthrychol a chyson

(vii) darparu dadansoddiad cynhwysfawr a chywir o'r materion cynllunio;

(viii) rhoi argymhelliad clir;

(ix) gweithredu penderfyniadau'r Pwyllgor.

19.2.7 Bydd y Swyddog Monitro yn cynghori aelodau ar faterion cyfreithiol a gweithredol. Wrth wneud hynny, mae'n rhaid iddo/iddi:

(i) weithredu'n deg ac agored ac osgoi unrhyw weithredoedd a fyddai'n creu argraff o duedd;

(ii) osgoi cyswllt cymdeithasol amhriodol gydag ymgeiswyr a'u hasiantau; wrthwynebwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb;

(iii) rhoi cyngor proffesiynol, gwrthrychol a chyson;

(iv) gweithredu penderfyniadau'r Pwyllgor cyn belled â'u bod yn ymwneud â chwblhau unrhyw gytundeb cyfreithiol, cychwyn/ amddiffyn achosion cyfreithiol ac ati.

## 19.3 TRAFODAETHAU CYN YMGEISIO/PENDERFYNU A GORFODI

19.3.1 Mae trafod a negodi yn hanfodol yn y broses gynllunio gan y gallant greu gwelliannau a all wneud cais yn dderbyniol neu ddatrys problemau.

19.3.2 Fel arfer bydd trafodaethau o'r fath yn digwydd ar lefel swyddog a bydd Aelodau, pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl, yn cyfeirio ceisiadau am gyngor o'r fath at y Swyddogion. Os bydd Aelodau yn ymwneud â thrafodaethau o'r fath dylent ei gwneud yn glir mai personol a dros dro yw eu barn ac y gallant ddymuno cofnodi'r drafodaeth.

19.3.3 Bydd pob swyddog fydd yn cymryd rhan mewn trafodaeth o'r fath yn:

(i) ei gwneud yn glir ai nhw yw'r lluniwr penderfyniad ai peidio ar gyfer dibenion y cais/mater dan sylw;

(ii) ei gwneud yn glir mai dim ond barn bersonol a dros dro a ellir ei mynegi na fydd yn rhwymo'r Cyngor i gyrraedd penderfyniad arbennig wrth benderfynu ar y cais;

(iii) mynegi barn yng nghyd-destun y cynllun datblygu ac ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill;

(iv) gyson wrth ddehongli polisïau cynllunio;

(v) cynghori ymgeiswyr a chymdogion/gwrthwynebwyr ar faterion gweithredol.

19.3.4 Weithiau bydd pobl leol neu Gynghorau Cymuned/Tref yn trefnu cyfarfodydd cyhoeddus i drafod cais cyfredol a gallant wahodd yr ymgeiswyr, Aelodau a Swyddogion i fynychu. O ystyried yr angen i osgoi rhag-benderfynu, bydd Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio a Swyddogion sy'n mynychu cyfarfodydd o'r fath yn eu defnyddio ar gyfer dod o hyd i ffeithiau; nid mynegi barn dros neu yn erbyn y cynnig a byddant hefyd yn gweithredu yn unol â Pharagraffau 19.2.2. 19.2.3 a 19.3.3. uchod.

## 19.4 CEISIADAU CYNLLUNIO A GYFLWYNIR GAN AELODAU, CYNGHORAU CYMUNED/TREF A SWYDDOGION

19.4.1 Bydd Ceisiadau Cynllunio a gyflwynir gan neu ar ran aelodau neu Swyddogion a gyflogir yn y gwasanaeth cynllunio neu'u perthnasau

agos * pan fydd hynny'n hysbys, yn cael eu penderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio ac nid gan y Pennaeth Rheoleiddio dan y pwerau dirprwyedig. Bydd hyn hefyd yn berthnasol pan fydd yr Aelod neu Swyddog yn gweithredu fel asiant dros barti arall.

*(*Diffinnir perthynas agos fel gŵr neu wraig, partner, rhiant, plenty, brawd neu chwaer).*

19.4.2 Bydd yr aelod dan sylw yn datgan buddiant ac ni fydd yn cymryd unrhyw ran yn y penderfyniad.

19.4.3 Ni fydd y swyddog dan sylw yn cymryd unrhyw ran yn y penderfyniad.

19.4.4 Pan fydd Cyngor Cymuned/Tref yn cyflwyno cais cynllunio, dylai aelodau'r sir sydd hefyd yn aelodau o'r Cyngor Cymuned/Tref ddatgan eu buddiant a pheidio pleidleisio ar y cais hwnnw petai'n dod i'r Pwyllgor i gael penderfyniad arno.

## 19.5 CEISIADAU CYNLLUNIO A GYFLWYNIR GAN Y CYNGOR

19.5.1 Mae'n allweddol bod y Cyngor yn cael ei weld fel pe bai'n trin ceisiadau ar gyfer ei ddatblygiadau ei hun (neu ddatblygiad sy'n cynnwys y Cyngor a pharti arall) yn yr un modd â cheisiadau eraill yn ogystal â gwneud hynny mewn gwirionedd.

19.5.2 Bydd pob cynnig o'r fath yn ddarostyngedig i'r un prosesau gweinyddu, gan gynnwys ymgynghori, â cheisiadau preifat gydag ystyriaeth yn cael ei rhoi yn unol â'r polisi ac unrhyw ystyriaeth gynllunio berthnasol

arall.

## 19.6 ADRODDIADAU SWYDDOGION I'R PWYLLGOR CYNLLUNIO

19.6.1 Bydd pob mater Cynllunio a ystyrir gan y Pwyllgor Cynllunio yn destun adroddiadau ysgrifenedig llawn gan y Pennaeth Rheoleiddio (neu, yn achos materion cyfreithiol, y Swyddog Monitro) gan ymgorffori ei h/argymhellion. Bydd adroddiadau o'r fath yn gynhwysfawr,ond yn gryno wrth nodi'r materion cynllunio (neu gyfreithiol) allweddol y dylid eu hystyried (o ran darpariaethau'r cynllun datblygu ac ystyriaethau cynllunio perthnasol eraill), sylwedd unrhyw sylwadau a dderbynnir ac unrhyw hanes cynllunio perthnasol. Bydd yr holl sylwadau a dderbynnir wedi i'r adroddiadau pwyllgor gael eu cwblhau, ond a dderbynnir yn ystod y cyfnod ymgynghori penodedig, yn cael eu copïo a byddant ar gael yn y Pwyllgor Cynllunio, pryd bynnag y bydd hynny'n ymarferol.

## 19.7 ARCHWILIAD SAFLE

19.7.1 Pwrpas ymweliad safle yw i gasglu gwybodaeth sydd yn galluogi'r Pwyllgor Cynllunio i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth na fyddai wedi bod ar gael o ddarllen adroddiad y swyddogion ac ystyried y farn gafodd ei gyfleu yn y Pwyllgor Cynllunio.

**Cais i gynnal ymweliad safle**

19.7.2 Gall cais i gynnal ymweliad safle gael ei wneud i'r Pwyllgor Cynllunio gan aelod o'r Pwyllgor, aelod lleol neu unrhyw gynghorydd sydd wedi defnyddio eu hawl i alw cais i'r Pwyllgor yn unol â'r trefniadau sydd wedi eu mabwysiadu.

19.7.3 Rhaid i bob cais am ymweliad safle sy'n cael ei wneud ddatgan rhesymau Cynllunio llawn ac amlinellu'r materion y byddent yn dymuno eu hystyried tra ar y safle.

19.7.4 Os yw cais yn cael ei dderbyn gan y Pwyllgor, bydd y mater yn cael ei ohirio hyd y cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Cynllunio.

**Meini prawf ar gyfer cytuno i gynnal ymweliad safle**

19.7.5 Ar ddisgresiwn Cadeirydd y Pwyllgor Cynllunio, gall ymweliad safle gael ei gynnal cyn i'r cais ddod gerbron y Pwyllgor am y tro cyntaf). Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn ystyried unrhyw gais i'r perwyl hyn yn unol â'r meini prawf. Rhaid i geisiadau o'r fath gael eu cyflwyno yn ysgrifenedig, trwy'r Gwasanaeth Cynllunio o leiaf 3 diwrnod gwaith cyn y cynhelir y pwyllgor.

19.7.6 Mae ymweliad safle yn golygu gohiriad yn y broses o benderfynu y cais dan sylw a chostau ychwanegol. Tra bod y penderfyniad i gynnal ymweliad safle yn fater i'r Pwyllgor Cynllunio, rhaid i aelodau'r Pwyllgor sicrhau bod ymweliadau o'r fath ddim ond yn cael eu cynnal pan na all y Pwyllgor wneud penderfyniad heb weld y safle eu hunain ac y byddai ymweld â'r safle yn cynnig manteision sylweddol o ran casglu gwybodaeth fyddai yn gymorth i wneud penderfyniad. Enghreifftiau lle na

fyddai ymweliad safle yn briodol fyddai:

- Lle mae materion polisi neu materion o egwyddor yn greiddiol
- Lle mae'r aelod yn anghytuno yn syml gyda'r canlyniad a gyflwynir yn yr adroddiad
- Lle mae'r aelod yn dymuno ystyried materion yn ymwneud â therfynau neu anghydfod rhwng cymdogion
- Materion o gystadleuaeth
- Lleihad mewn gwerth eiddo
- Unrhyw fater arall sydd ddim yn ystyriaeth cynllunio materion
- Lle mae cynghorwyr wedi ymweld â'r safle o fewn y 12 mis diwethaf, ar wahân i amgylchiadau arbennig.

**Mynychu Ymweliad Safle**

19.7.7 Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio fydd yn mynychu yr ymweliad safle.

19.7.8 Bydd yr ymweliadau safle yn cael eu cynnal ar fore'r Pwyllgor Cynllunio.

19.7.9 Bydd gan yr ymgeisydd a'r aelod lleol hawl i fynychu'r safle a gallent ateb cwestiynau mewn perthynas â ffeithiau yn unig. Ni fydd trafodaeth ynglŷn â rhinweddau y cais yn cael ei gynnal ar y safle.

19.7.10 Nid oes gan y cyhoedd hawl i fynychu'r safle ar wahân i safleoedd cyhoeddus.

**Ymddygiad Mewn Ymweliad Safle**

19.7.11 Bydd yr ymweliad yn cael ei gadeirio gan Gadeirydd y Pwyllgor Cynllunio (neu gan yr Is-gadeirydd yn absenoldeb y Cadeirydd) a fydd yn sicrhau fod yr ymweliad yn cael ei gynnal yn drefnus.

19.7.12 Ni ddylai aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio wneud sylwadau a fyddai'n rhoi'r argraff eu bod wedi dod i benderfyniad ar rinweddau'r cais yn barod.

19.7.13 Ni ddylai aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio drafod y cais, dim ond i gael eglurder ar unrhyw ffeithiau, ac ni ddylent ddod i benderfyniad pan ar y safle.

19.7.14 Os yw aelod yn teimlo fod angen iddo ymweld â’r safle ei hun (efallai am nad oedd hi’n bosibl mynychu’r ymweliad safle), ni ddylai fynd ar y safle ei hun, ni ddylai drafod y cais gyda phartïon sydd â diddordeb, ac, pe byddai unrhyw drafod, sicrhau ei fod yn egluro’n glir y bydd y Pwyllgor yn gwneud y penderfyniad ar ôl yr ymweliad.

19.7.15 Wedi'r ymweliad safle, bydd y cais yn cael ei drafod yn y Pwyllgor Cynllunio.

## 19.8 APELIADAU YN ERBYN PENDERFYNIADAU'R CYNGOR

19.8.1 Bydd swyddogion yn trefnu ac yn ymddangos fel tystion yn gyffredinol mewn apeliadau cynllunio ac achosion cyfreithiol eraill ar ran y Cyngor. Mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd yn angenrheidiol penodi ymgynghorwyr i ymddangos ar ran y Cyngor.

19.8.2 Wrth roi tystiolaeth bydd swyddogion yn cyflwyno'r achos gorau posibl ar ran y Cyngor tra'n cydymffurfio gyda Côd Ymddygiad Proffesiynol yr RTPI*.

19.8.3 Mewn achosion lle bydd yr apêl yn erbyn penderfyniad y mae'r Pwyllgor wedi ei wneud yn groes i argymhelliad y Swyddogion, efallai y bydd y swyddog achos cynllunio yn medru rhoi tystiolaeth, ond mewn rhai achosion, bydd swyddog arall neu ymgynghorwyr yn cael eu defnyddio os bydd y Pennaeth Rheoleiddio yn ystyried y gall y farn y mae'r swyddog achos wedi ei nodi ymlaen llaw yn rhwystr iddo/iddi gyflwyno achos llawn. Mewn achosion eithriadol enwebir aelod i gynrychioli achos y Cyngor.

19.8.4 Gall aelodau gael rôl bwysig i'w chwarae mewn apeliadau a gallant, o fewn amserlenni pendant, wneud sylwadau ysgrifenedig i'r arolygwr a gallant hefyd ymddangos mewn Gwrandawiadau Anffurfiol neu fel tyst mewn Ymchwiliadau. Wrth wneud hynny dylent ddatgan a ydynt yn gweithredu yn rhinwedd eu swydd fel Cynghorydd lleol, neu, yn eithriadol, yn cynrychioli achos y Cyngor.

19.8.5 Bydd swyddogion yn cefnogi aelodau sy'n dymuno mynychu'r apêl a/neu wneud sylwadau ac yn eu cynghori ar baratoi a chyflwyno tystiolaeth.

** Mae Côd Ymarfer Proffesiynol y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yn ei gwneud yn ofynnol, ymhlith pethau eraill, i Swyddogion Cynllunio sydd yn aelodau o'r Sefydliad beidio gwneud datganiadau gan honni mai eu datganiadau eu hunain ydynt, ond sy'n groes i'w barn broffesiynol bona fide.*

## ATODIAD

## ADRAN 19

## PROTOCOL AR GYFER CYNGHORWYR.

Ceisia'r protocol a ganlyn egluro rôl aelodau'r Pwyllgor Cynllunio ("y penderfynydd"), Aelodau Lleol a'r Cynghorwyr yn gyffredinol.

### 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae gan y Cyngor un Pwyllgor Cynllunio sydd â phymtheg o aelodau sy'n gwneud penderfyniadau ar y Ceisiadau Cynllunio hynny sy'n cael eu cyfeirio ar gyfer eu hystyried yn unol â Chynllun Dirprwyo Cynllunio Gwynedd.

1.2 Fodd bynnag, yn amlach na pheidio, mi fydd Cais Cynllunio, yn unol â Chynllun Dirprwyo Cynllunio Gwynedd, yn cael ei benderfynu gan Bennaeth yr Adran Rheoleiddio yn hytrach na'r Pwyllgor Cynllunio. Mewn sefyllfa fel hyn ni fydd gan yr aelodau hynny sy'n eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio rôl i'w chwarae yn y broses o wneud penderfyniad.

1.3 O ran Cais Cynllunio sydd o fewn adran etholiadol yr aelod, neu sy'n effeithio ar yr adran etholiadol, mae modd i'r Cynghorydd ddefnyddio'r hawl i alw'r cais i mewn (er mwyn i'r cais gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio yn hytrach na gan y Pennaeth Rheoleiddio).

1.4 Yn ogystal, gall Cynghorydd, yng nghyswllt Cais Cynllunio yn ei adran etholiadol, neu sydd yn effeithio ar ei adran etholiadol, fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio pan fo'r cais hwnnw yn cael ei drafod er mwyn cyflwyno barn yr etholwyr y mae yn eu cynrychioli.

1.5 Mae'n bosibl y gall rôl a phŵer y Cynghorwyr gael eu cyfyngu pan fod gwrthdaro rhwng eu dyletswydd hwy fel cynghorwyr a'u diddordebau personol neu allanol.

1.6 Diffinnir y rolau a'r pwerau hyn isod, mewn mwy o fanylder.

### 2. RÔL Y PENDERFYNYDD

2.1 Pan fo Cynghorydd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ac yn cymryd rhan (neu'n bwriadu cymryd rhan) mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio wrth drafod cais cynllunio penodol, yng nghyswllt y protocol hwn, mae o'n "Benderfynydd".

2.2 Bydd Cynghorydd sy'n Benderfynydd yn cydymffurfio â darpariaethau Côd Ymddygiad Aelodau.

### 3. RÔL YR "AELOD LLEOL"

3.1 Pan fo cais cynllunio sydd yn adran etholiadol Cynghorydd gerbron Pwyllgor Cynllunio, gall cynghorydd fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio er mwyn cyflwyno sylwadau am y cais cynllunio hwnnw ar ran ei etholwyr, ac yng nghyswllt y cais cynllunio hwnnw, ef yw'r "Aelod Lleol".

3.2 Pan fo Cynghorydd yn aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ni all fod yn Benderfynydd ar gyfer cais cynllunio sydd yn ei adran etholiadol. Mewn perthynas ag unrhyw gais yn ei adran etholiadol bydd pob Cynghorydd yn Aelod Lleol yng nghyd-destun y protocol yma.

3.3 Pan fo Cynghorydd am ba bynnag reswm yn methu bod yn bresennol mewn Pwyllgor Cynllunio pan fo cais gerbron sydd yn ei adran etholiadol, caiff drefnu i Gynghorydd arall fynychu'r Pwyllgor er mwyn cyflwyno sylwadau am y cais cynllunio ar ran ei etholwyr. Mewn sefyllfa fel hyn, bydd y Cynghorydd hwn yng nghyd-destun y Protocol yma yn "Aelod Lleol" ar gyfer y cais cynllunio hwnnw.

3.4 Bydd Cynghorydd sy'n Aelod Lleol yn cydymffurfio â Darpariaethau Siarad Cyhoeddus a Chôd Ymddygiad Aelodau. Ceir Darpariaethau pellach yn ymwneud a rôl yr Aelod Lleol yn rhan nesaf y Protocol.

3.5 Pan fydd gan Aelod Lleol fuddiant personol sydd yn rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad Aelodau, ni fydd ganddo hawl i annerch y Pwyllgor. Mewn sefyllfa fel hyn gall drefnu i gynghorydd arall fynychu'r Pwyllgor er mwyn cyflwyno sylwadau am y cais cynllunio ar ran ei etholwyr.

## 4 RÔL CYNGHORYDD NAD YW'N AELOD O'R PWYLLGOR CYNLLUNIO

4.1 Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Côd Ymddygiad Aelodau, bydd Cynghorydd nad yw'n Aelod o Bwyllgor Cynllunio'r Sir (pa un ai yw'n bwriadu bod yn "Aelod Lleol" ai peidio) yn rhydd i :-

- drafod unrhyw gais cynllunio gyda'r ymgeisydd/asiant gwrthwynebydd/grŵp lobio ac ati;
- fynychu unrhyw gyfarfod sy'n cael ei drefnu'n lleol yn ymwneud a'r cais;
- fynychu unrhyw gyfarfod Cyngor Tref neu Gymuned ynghylch y cais a siarad am y cais (gan gynnwys mynegi barn un ai o blaid neu yn erbyn y cais) a (pe byddai'n aelod o'r Cyngor Tref neu Gymuned) pleidleisio ar y cais;
- gyfnewid gwybodaeth sy'n berthnasol i'r cais gyda'r swyddog cynllunio;
- geisio gwybodaeth/eglurder ynghylch y cais gan swyddog cynllunio;
- dylai gydymffurfio a rheolau lobïo Adran 13 y Protocol hwn.

## 5 "GALW I MEWN"

5.1 Caiff Cynghorydd (pa un ai yw'n Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ai peidio) yng nghyswllt Cais Cynllunio yn ei adran etholiadol neu sy'n effeithio ar ei adran etholiadol, neu unrhyw ddau Gynghorydd arall (pa un ai ydynt yn Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio ai peidio), gyflwyno cais ysgrifenedig i Reolwr Cynllunio Gwynedd o fewn yr amserlen benodol er mwyn i'r cais cynllunio gael ei gyfeirio ar gyfer ei benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio. Fe ddylid cyflwyno rhesymau cynllunio eglur yn y cais ysgrifenedig ar gyfer cyflwyno'r cais cynllunio i'r Pwyllgor Cynllunio.

5.2 Pan fo Cynghorydd yn gweithredu ar ei hawl i alw cais cynllunio i mewn i'r Pwyllgor Cynllunio yn unol â 5.1. uchod, yr amserlen benodol ar gyfer rhoi rhybudd yw 16 diwrnod calendr o ddyddiad y llythyr o hysbysiad.

5.3 Pan fo dau Gynghorydd (nad ydynt yn Aelodau Lleol) yn defnyddio'u hawl i alw cais cynllunio i mewn i'r Pwyllgor Cynllunio yn unol â 5.1. uchod, dylid anfon llythyr yn rhoi gwybod i'r Aelod Lleol.

5.4 Pan fo dau Gynghorydd (nad ydynt yn Aelodau Lleol) yn defnyddio'u hawl i alw cais cynllunio i mewn i'r Pwyllgor Cynllunio yn unol â 5.1., caiff un ohonynt fynegi ei farn ynghylch y cais penodol hwnnw. Bydd y Cynghorydd yn cydymffurfio a Darpariaethau Siarad Cyhoeddus a Chôd Ymddygiad Aelodau.

5.5 Er mwyn osgoi amheuaeth pan fo Cynghorydd yn defnyddio'i hawl i siarad yn unol â 5.1. uchod mae hyn yn ogystal â hawl Aelod Lleol yn unol â 4.1. uchod.

## 6 PENDERFYNU YMLAEN LLAW

6.1 Wrth gymryd rhan yng nghyfarfodydd yr awdurdod, neu wrth wneud penderfyniadau ynghylch eitem ger bron Pwyllgor Cynllunio, rhaid i Benderfynydd wneud hynny â meddwl agored ac yn wrthrychol. Yn ystod y broses penderfynu rhaid i'r Penderfynydd weithredu'n deg ac ystyried budd y cyhoedd yn briodol. Mewn penderfyniadau Pwyllgorau Cynllunio, rhaid bob amser gwneud penderfyniadau ar sail y ffeithiau sydd ger bron, a ni ellir penderfynu ymlaen llaw i'r graddau fod Penderfynydd yn hollol anfodlon ystyried yr holl dystiolaeth a chyngor a roddir.

6.2 Rhagderfyniad yw bod â meddwl hollol gaeedig. Mae gan unrhyw Benderfynydd hawl i arddel safbwynt ymlaen llaw ynghylch mater penodol cyn cyfarfod (rhagdueddiad) ar yr amod ei fod yn cadw meddwl agored a'u bod yn fodlon ystyried rhinweddau'r holl ddadleuon a phwyntiau a wneir ynghylch y mater a drafodir cyn gwneud penderfyniad.

6.3 Mae rhagderfyniad ar y llaw arall yn golygu pan mae'n amlwg ei fod wedi penderfynu ar weithredoedd cyn cyfarfod ac yn gwbl amharod i ystyried y dystiolaeth a'r dadleuon a gyflwynir ar y mater hwnnw yn ystod y cyfarfod.

Gallai rhagderfyniad wneud y penderfyniad yn annilys, ond gallai hefyd olygu torri'r Cod.

6.4 Felly, dylai Penderfynydd ystyried yr uchod yn ofalus cyn cymryd rhan yn y Pwyllgor fel Penderfynydd. Dylid gofyn am farn y Swyddog Monitro o flaen llaw ac os ystyrir fod y Penderfynydd wedi rhagderfynu mewn perthynas ag eitem benodol dylid gwneud datganiad agored cyn i'r eitem gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio, peidio siarad na phleidleisio a gadael y siambr yn ystod y drafodaeth ar yr eitem honno.

## 7. CYSYLLTIAD UNIONGYRCHOL CYNGHORWYR GYDAG YMGEISWYR AC ERAILL

7.1 Os yw Cynghorydd yn rhoi cyngor i ymgeiswyr, asiantau, gwrthwynebwyr neu unrhyw bartïon eraill sydd â diddordeb ynghylch pa mor debygol yw hi y caiff bwriad cynllunio ei ganiatáu, ni chaiff y Cynghorydd fod yn "Benderfynydd" pan drafodir y ceisiadau cynllunio hynny sy'n berthnasol i'r bwriad a bydd angen ystyried a yw'n disgyn o fewn categori o fod yn Aelod a Diddordeb sy'n Rhagfarnu.

7.2 Dylai aelod sy'n dymuno sicrhau ei fod yn aros yn gymwys i fod yn "Benderfynydd" gynghori'r ymgeiswyr arfaethedig i gysylltu â Swyddog Cynllunio am gyngor ar rinweddau y cais a threfniadau.

## 8. DYLAI AELODAU DDERBYN CYNGOR

8.1 Pe byddai Cynghorydd yn amau lle mae'n sefyll o dan y Protocol hwn neu Gôd Ymddygiad Aelodau, dylai ofyn am gyngor y Swyddog Monitro pob tro.

## 9. DYLETSWYDDAU'R "PENDERFYNYDD"

9.1 Ar gyfer unrhyw gais cynllunio sy'n cael ei drafod gan y Pwyllgor Cynllunio:

- **ni ddylai'r** Penderfynydd lobïo na dylanwadu na cheisio lobïo na dylanwadu unrhyw Benderfynydd arall neu Bennaeth Rheoleiddio ynghylch cais cynllunio o'r fath nac ychwaith unrhyw benderfyniad arno cyn y Pwyllgor Cynllunio sy'n ystyried a phenderfynu ar y cais hwnnw.
- **ni ddylai'r** Penderfynydd dderbyn unrhyw anrhegion na lletygarwch gan unrhyw un sy'n gysylltiedig â chais cynllunio o'r fath a dylai weithredu'n syth i gofrestru unrhyw gynigion, anrhegion neu letygarwch a wrthodwyd yn y Gofrestr a gedwir yn bwrpasol ar gyfer hynny gan y Swyddog Monitro.
- **ni ddylai'r** Penderfynydd dderbyn na dangos y byddai'n fodlon derbyn unrhyw lythyr, pamffled neu unrhyw ddeunydd ysgrifenedig arall (gan gynnwys e-bost neu ffacs) sy'n ymwneud a chais cynllunio cyn iddo gael ei benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio. Pan fo Penderfynydd yn derbyn deunydd o'r fath am ddim fe ddylai ei anfon ymlaen at y Pennaeth Rheoleiddio yn ddi-oed (a bydd yn rhoi gwybod i'r sawl y'i anfonodd yn y lle cyntaf, os yn hysbys, fod y deunydd wedi cael ei anfon ymlaen iddo ef ac y bydd yn cael ei gyfeirio ato, os yn briodol, yn Adroddiad Pwyllgor y Swyddog)
- **ni ddylai'r** Penderfynydd fynychu unrhyw gyfarfod, cyfarfod Briffio a Thrafodaeth sy'n ymwneud â chais cynllunio o'r fath sydd ddim yn cael ei drefnu gan na'i fynychu gan y Pennaeth Rheoleiddio neu fel arall wedi'i awdurdodi yn ysgrifenedig gan y Swyddog Monitro a dylai barchu'r darpariaethau sy'n ymwneud â mynychu cyfarfodydd cyhoeddus yn adran 10 isod.
- **ni ddylai'r** Penderfynydd ddangos na mynegi'n gyhoeddus neu'n breifat y penderfyniad tebygol neu rinweddau/gwrthwynebiadau i gais cynllunio o'r fath cyn i'r Pwyllgor Cynllunio ystyried a gwneud penderfyniad at y cais cynllunio hwnnw. **Pan fo Penderfynydd yn gwneud hyn, fe ddylai dderbyn cyngor gan y Swyddog Monitro ynghylch a ddylai barhau i fod yn Benderfynydd ai peidio.**

- **ni ddylai** ymrwymo naill ffordd na'r llall o ran y cais cynllunio cyn iddo gael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio. **Mae'n hanfodol bwysig fod Cynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd gan gadw meddwl agored a'u bod yn medru dangos hynny.**
- **ni ddylai** ddod a chyflwyniadau manwl gydag ef i'w darllen i'r cyfarfod. Gallai hyn awgrymu fod y Cynghorydd wedi gwneud penderfyniad un ai o blaid neu yn erbyn cais cyn mynychu'r cyfarfod. (Argymhellir y dylai Cynghorwyr wneud nodiadau o bwyntiau sy'n codi yn y cyfarfod ar gyfer eu defnyddio mewn cyflwyniadau).
- **ni ddylai** bleidleisio na chymryd rhan yng nghyfarfod y Pwyllgor Cynllunio os nad yw wedi bod yn bresennol i wrando ar y drafodaeth yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys cyflwyniad y swyddog i'r cais.
- **ni ddylai** ddychwelyd i'w sedd yn ystafell y Pwyllgor Cynllunio (ar ôl gadael yr ystafell neu'r siambr cyn i'r drafodaeth ar y cais ddechrau neu yn ystod y drafodaeth) nes bod y drafodaeth ar y cais penodol hwnnw wedi dod i ben.
- **ni ddylai** gynnig, eilio na chefnogi penderfyniad sy'n groes i'r Cynllun Datblygu neu argymhellion y Pennaeth Rheoleiddio heb adnabod ac ynganu'n glir y rhesymau sy'n cefnogi'r penderfyniad sy'n cael ei gynnig. Dylid cyflwyno'r rhesymau hynny cyn y bleidlais a dylid eu cynnwys yn y Cofnodion.
- **ni ddylai** gynnig gohirio'r cais cynllunio heb adnabod ac ynganu'n glir y rhesymau i gyfiawnhau gohiriad o'r fath. Dylid cynnwys y rhesymau hynny yn y Cofnodion os yw'r cais cynllunio yn cael ei ohirio.
- **ni ddylai** bleidleisio ar y cais mewn cyfarfod Cyngor Tref neu Gymuned gynharach. Pe byddai Penderfynydd yn gwneud hyn, fe ddylai geisio cyngor gan y Swyddog Monitro ynghylch parhau i fod yn Benderfynydd ai peidio**.**

9.2 Bydd Cynghorydd sy'n Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ac yn dymuno ymgymryd â rôl "Aelod Lleol" ar gyfer Cais Cynllunio sydd i'w drafod gan y Pwyllgor Cynllunio yn cydymffurfio â darpariaethau'r Protocol hwn sy'n berthnasol i "Aelod Lleol" yn enwedig y rhai yn adrannau 4 a 13.

9.3 Bydd Cynghorydd sy'n Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio yn cydymffurfio â **Chôd Ymddygiad Aelodau** ac yn cael ei atgoffa'n benodol os oes ganddo un o'r hyn a ganlyn mewn perthynas â chais cynllunio sydd i gael ei drafod gan Bwyllgor cynllunio :-

i) Diddordeb Personol - y gofynion o ran datgan;

ii) Diddordeb sy'n Rhagfarnu - yr angen i gael gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau - neu fel arall peidio ag ymgymryd â rôl y Penderfynydd.

## 10. PAN FO PENDERFYNYDD YN DEFNYDDIO'I HAWL I ALW CAIS I MEWN

10.1. Pe byddai cais cynllunio penodol yn cael ei alw i mewn i gael ei benderfynu gan y Pwyllgor Cynllunio o ganlyniad i gais gan Aelod o'r Pwyllgor, yna mae angen i'r Aelod hwnnw ystyried yn ofalus pa rôl y dylai chwarae pan fo'r Pwyllgor Cynllunio yn ystyried a phenderfynu ar y cais dan sylw. Yn arbennig felly pan fo Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio sydd wedi gwneud cais

i alw i mewn :-

- Wedi geirio'r cais i Alw i Mewn, mewn iaith fyddai'n awgrymu ei fod wedi llunio barn glir yn barod o ran canlyniad priodol y cais; neu

- Wedi gwneud y cais Galw i Mewn ar ôl trafod gyda'r ymgeisydd/asiant/ gwrthwynebwr ac/neu unrhyw drydydd parti (gan gynnwys Cynghorydd arall pe bai'n Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ai peidio) dylai'r Aelod geisio cyngor gan y Swyddog Monitro ynghylch parhau i fod yn Benderfynydd.

## 11. DYLETSWYDDAU'R "AELOD LLEOL"

11.1 Pan fo Cynghorydd yn gweithredu fel Aelod Lleol (pa un ai yw'n Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio ai peidio):

- **ni ddylai** eistedd gydag Aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio, wrth fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio sy'n trafod y cais cynllunio dan sylw, a dylai aros hyd nes y gelwir arno i siarad yn rhan y cyhoedd o'r ystafell;
- **ni ddylai** siarad gydag unrhyw Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio am y cais cynllunio dan sylw, un ai yn ystod y cyfarfod Pwyllgor neu fel arall;
- yng nghyswllt y cais dan sylw a chyda caniatâd y Cadeirydd, caiff ymateb i gwestiynau Aelodau o'r Pwyllgor, yr ymgeisydd neu ei asiant ac unrhyw barti arall sy'n cael caniatâd i siarad yn ystod y cyfarfod;
- **ni ddylai** dderbyn unrhyw anrheg na lletygarwch gan unrhyw un sy'n gysylltiedig â'r cais cynllunio dan sylw a dylai weithredu heb oediad i gofrestru unrhyw gynigion o anrhegion neu letygarwch a wrthodwyd gan y Gofrestr a gedwir yn bwrpasol ar gyfer hynny gan y Swyddog Monitro.

11.2 Disgwylir i Aelodau nad ydynt ar y Pwyllgor Cynllunio dderbyn hyfforddiant a ddarperir gan y Cyngor o leiaf unwaith y flwyddyn er mwyn eu galluogi i gyflawni eu rôl fel Cynrychiolydd Lleol yn gywir.

11.3 Dylai Cynghorydd sydd yn gweithredu fel Aelod Lleol ac sydd angen gwybodaeth bellach am y cais cynllunio gysylltu gyda'r swyddogion cynllunio perthnasol ac nid Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio.

## 12. HAWLIAU "AELOD LLEOL"

12.1 Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth caiff hawliau Aelod Lleol eu cynnwys yn Adran 4.1. y Protocol hwn dan y pennawd "Rôl Cynghorydd nad yw'n Aelod o'r Pwyllgor Cynllunio.".

## 13. LOBÏO

13.1 Mae'n bwysig sylweddoli fod lobïo yn rhan arferol a phriodol iawn o'r broses wleidyddol. Bydd y rhai sy'n cael eu heffeithio gan y penderfyniad cynllunio yn aml yn ceisio cael dylanwad arno wrth fynd at aelod ward etholedig neu at aelod o'r Pwyllgor cynllunio. Dywed Trydydd Adroddiad Pwyllgor Nolan "*It is essential for the proper operation of the Planning system that local concerns are adequately ventilated. The most effective and suitable way this can be done is via the local elected representatives, the Councillors*

*themselves."*

13.2 Fodd bynnag, heb ofal a synnwyr cyffredin gan bawb sydd â diddordeb, fe all lobïo o'r fath arwain at gwestiynau amhleidioldeb a gonestrwydd Cynghorydd.

13.3 Wrth gael ei lobïo dylai'r Penderfynydd ofalu wrth fynegi barn all gael ei ddehongli fel pe bai wedi gwneud ei feddwl i fyny yn barod cyn iddynt weld y dystiolaeth i gyd. Fe ddylent sicrhau mai dim ond cyngor trefniadol sy'n cael ei roi.

13.4 Argymhellir na ddylai Cynghorwyr lobïo Cynghorwyr sy'n aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio ynghylch eu pryderon neu eu barn nac ychwaith geisio eu perswadio i benderfynu pa ffordd i bleidleisio cyn y cyfarfod ble y bwriedir gwneud penderfyniad cynllunio.

13.5 Ni ddylai Cynghorwyr benderfynu na thrafod sut i bleidleisio ar unrhyw gais mewn unrhyw fath o gyfarfod grwpiau gwleidyddol, na lobïo unrhyw aelod i wneud hynny. Ni ddylai Cyfarfodydd Grwpiau Gwleidyddol byth reoli sut y dylai Aelodau bleidleisio ar fater cynllunio. Ni ddylid cynnal Cyfarfodydd Grwpiau Gwleidyddol cyn pwyllgorau cynllunio.

## 14. <u>HYFFORDDI AELODAU'R PWYLLGOR CYNLLUNIO</u>

14.1 Bydd y Cyngor yn sicrhau fod Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio yn cwblhau hyfforddiant cyflwyno yn foddhaol cyn dechrau gwasanaethau ar y Pwyllgor Cynllunio ac o dro i dro eu bod yn ymgymryd â hyfforddiant ychwanegol / gloywi yn unol â rhaglen hyfforddiant sydd wedi'i gytuno gan y Cyngor.

14.2 Bydd cofnodion presenoldeb mewn digwyddiadau hyfforddiant yn cael eu monitro. Bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Prif Bwyllgor Craffu pob chwe mis ynghylch presenoldeb aelodau mewn digwyddiadau hyfforddiant. Ni fydd aelod o'r Pwyllgor Cynllunio sy'n peidio â mynychu'r sesiynau hyfforddi yn cael eistedd ar y Pwyllgor Cynllunio nes bod yr hyfforddiant hwn wedi'i gwblhau. Bydd Aelod newydd o'r Cyngor yn ymgymryd â sesiwn hyfforddiant cyn iddo gael caniatâd i fod yn rhan o'r Pwyllgor Cynllunio.

## 15. <u>HYFFORDDI AELODAU ERAILL</u>

15.1 Bydd hyfforddiant priodol ar gyfer Aelodau nad ydynt yn rhan o'r Pwyllgor Cynllunio yn cael ei drefnu er mwyn eu galluogi i gyflawni rôl yr Aelod Lleol yn briodol.

## 16. <u>CEISIADAU CYNLLUNIO GAN AELODAU</u>

16.1 Pan fo Aelod yn gwneud cais cynllunio, fe ddylai'r aelod hwnnw gydymffurfio'n gyffredinol a Chôd Ymddygiad Aelodau. Fodd bynnag, bydd gan yr Aelod hawl i gyfarch y Pwyllgor yn rhinwedd yr Ymgeisydd yn unol â'r Rheolau Siarad Cyhoeddus. Yn union ar ôl cyfarch y Pwyllgor, fe ddylai'r aelod adael y Siambr pan fo'r cais yn cael ei drafod yn unol â Chôd Ymddygiad Aelodau.